9. Rhubanau 9 a chlychau

Beth sydd yn y blwch?

- **sanau**
- **papur crych**
- **menig**
- **rhubanau**
- **clychau**

Datblygu sgiliau:

- **ymwybyddiaeth o'r corff**
- **gwrando**
- **symud yn annibynnol**
- **symud yn fwriadol**
- **edrych – dilyn**

Cyflwyno'r cefndir

- Dewiswch amser priodol i chwarae, pan fydd eich plentyn yn effro, yn gyfforddus ac yn fodlon.
- Sefydlwch drefn benodol, gallai gormod o symbylu ddrysu eich plentyn.
- Ailadroddwch yr un gweithgaredd sawl gwaith gan y bydd yn helpu eich plentyn i gadw'r sgiliau a ddysgwyd.
- Siaradwch am yr hyn yr ydych chi a'ch plentyn yn ei wneud.
- Ewch ar gyflymder y plentyn, rhowch amser iddynt archwilio a darganfod.
- Ceisiwch sicrhau na fydd unrhyw beth yn torri ar eich traws fel y gallwch chi a'ch plentyn ganolbwyntio.
- **Yn anad dim – ymlaciwch, mwynhewch a sicrhewch eich bod yn cael hwyl gyda'ch gilydd.**

Gweithgareddau

- Gadewch i'ch plentyn archwilio'r gwahanol ddeunyddiau.
- Rhowch fenig ar ddwylo eich plentyn - gan annog eich plentyn i symud eu breichiau / dwylo er mwyn canu'r clychau a sgrwnsian y papur crych.
- Rhowch gynnig ar yr un gweithgaredd gan ddefnyddio'r sanau ar eu traed.
- Rhowch y papur crych o dan eu traed a'u hannog i gicio.

Y cam nesaf

- Ceisiwch ddefnyddio amrywiaeth o wahanol ddeunyddiau a gweadau.
- Cynigiwch ddewisiadau o wahanol ddeunyddiau.
- Clymwch y clychau wrth y rhubanau a'u gosod o fewn ystod symud eich plentyn – gan eu hannog i estyn allan a'u taro.
- Gwnewch fag 'teimlo' a rhowch wahanol eitemau yn y bag i'ch plentyn eu harchwilio.

Cysylltiadau â 'birth to three matters'

Plentyn cryf:
- parchu dewisiadau
- ymwybyddiaeth gynyddol ohono'i hun
- adnabod nodweddion a dewisiadau personol.

Cyfathrebydd medrus:
- archwilio, arbrofi, labelu a mynegi
- gwneud ymatebion chwareus a difrifol
- negodi a gwneud dewisiadau.

Dysgwr hyfedr:
- archwilio a darganfod
- chwarae'n ddychmygus gyda deunyddiau gan ddefnyddio'r synhwyrau
- gwneud cysylltiadau drwy'r synhwyrau a symud.

Plentyn lach:
- gallu mynegi teimladau
- darganfod a dysgu am ei gorff/chorff
- dangos dewisiadau unigol.

Cysylltiadau â'r cyfnod sylfaen

Defnyddio a chymhwyso mathemateg:
- ymchwilio heb deimlo methiant
- hyder wrth broffwydo canlyniadau
- adnabod cydberthnasau.

Rhifau a thrin data:
- adnabod a llunio patrymau
- cyfri
- datrys problemau.

Mesur:
- trin amrywiaeth o wrthrychau
- gweithio gyda detholiad o ddeunyddiau
- proffwydo canlyniadau.

Siâp a gofod:
- darganfod priodweddau
- trin gwrthrychau o wahanol faint a siâp
- chwarae dychmygus gyda gwahanol adnoddau.

Arsylwi ac asesu

- Peidiwch â rhuthro'r gweithgaredd – rhowch ddigon o amser i'r plant ymateb.
- Nodwch pa rannau o'r corff a gaiff eu symud ac ym mha ffordd.
- Anogwch y plant eraill i wylio am ymatebion. Bydd hyn o gymorth iddynt weld sut y gall eich plentyn gyfathrebu.
- Cyflwynwch ddeunyddiau eraill ar gyfer symudiadau / dewisiadau cyferbyniol e.e. felfed, defnydd lapio swigod.
- Nodwch ba ochr y mae eich plentyn yn symud fwyaf aml – anogwch yr ochr arall gan ddefnyddio symbylwyr ychwanegol e.e. hoff wead.

Mae'r cardiau hyn yn ymwneud yn benodol â rhifedd a datblygiad mathemategol. Fodd bynnag, bydd y gweithgareddau hefyd yn ategu meysydd dysgu eraill.

7953_9 Rhif Elusen Gofrestredig: 208231. © Scope Mai 2011

RNIB Cymru yn cefnogi pobl ddall ac â golwg rhannol
supporting blind and partially sighted people

scope cymru

Rhif Elusen Gofrestredig 226227